Guide Dogs Cymru



# Addasiadau Rhesymol mewn Ysgolion

Cymru 2024

Mewn partneriaeth â

NatSIP National Sensory Impairment Partnership

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 3

**Diffiniadau** 3

**Dyletswydd addasiadau rhesymol** 4

Darpariaethau, meini prawf ac arferion 5

Nodweddion ffisegol 5

Cymhorthion cynorthwyol a gwasanaethau 6

**Dyletswydd ragflaenorol** 8

**Cefnogaeth gymhwyso** 9

**Rhestr gyfeirio addasiadau a chefnogaeth posibl** 10

**Eithriadau** 16

**Adnoddau** 17

**Manylion cyswllt** 18

# Cyflwyniad

**Mae'r arweiniad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer cefnogi blynyddoedd cynnar, ysgolion a lleoliadau eraill i ddeall eu rhwymedigaethau a gweithredu arnynt dan 'Ddeddf Cydraddoldeb 2010', a than y rhyngwyneb rhwng 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018' a 'Gorchymyn y Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) (2021), mewn perthynas â phlant a phobl ifainc sydd ag amhariad ar y golwg.**

Datblygwyd ef ag arbenigwyr, gan gynnwys Athrawon Cymwysedig Plant a Phobl Ifainc ag Amhariad ar y Golwg (QTVIs), gweithwyr proffesiynol eraill, a phartneriaid y 'National Sensory Impairment Partnership' (NatSip) sy'n gweithio yn y sector amhariad ar y golwg. Fel y cyfryw, mae'n cynrychioli syniadau gweithwyr proffesiynol am yr arferion gorau yn y maes hwn, wedi'u seilio ar rwymedigaethau statudol.

# Diffiniadau

**Diffinia Deddf Cydraddoldeb 2010 anabledd fel 'amhariad corfforol neu feddyliol sydd ag effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar y gallu i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.'**

Byddai plant a phobl ifainc ag amhariad ar y golwg i gyd yn gymwys i ddod o dan y diffiniad hwn ac felly buasai darpariaethau'r Ddeddf yn eu cynnwys hwy.

Yng Nghymru, mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn diffinio 'angen dysgu ychwanegol'. Yn ôl y Ddeddf, byddai plant sydd ag amhariad ar y golwg yn cael eu hystyried yn blant ag anghenion dysgu ychwanegol.



# Dyletswydd addasiad rhesymol

**Mae addasiadau rhesymol yn newidiadau y gellir eu gwneud mewn ysgolion i helpu disgyblion anabl gymryd rhan mewn addysg ar yr un sail â myfyrwyr eraill.**

Mae gan ysgolion a lleoliadau eraill ddyletswydd i gynllunio addasiadau ar gyfer disgyblion anabl yn gyffredinol, gan gynnwys addasiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, amgylchedd ffisegol yr ysgol, a chael gafael ar wybodaeth. I fyfrwyr ag anabledd yn unig y mae gan ysgolion ddysletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Pan fydd ysgol yn dodi myfyriwr ag anabledd dan anfantais o'i gymharu â myfyrwyr eraill, mae'n rhaid i'r ysgol gymryd camau rhesymol i geisio goresgyn yr anfantais honno.

Er enghraifft, bydd myfyriwr sydd ag amhariad ar y golwg, sydd ond yn medru darllen testun yn gyfforddus mewn ffont 16pt neu fwy, dan anfantais sylweddol o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl, os bydd deunyddiau ond yn cael eu darparu mewn print llai.

**Yn Neddf Cydraddoldeb 2010 mae tair rhan i ddyletswydd addasiad rhesymol:**

1. **Darpariaethau, meini prawf ac arferion**
2. **Nodweddion ffisegol**
3. **Cymhorthion cynorthwyol a gwasanaethau**



# Darpariaethau, meini prawf ac arferion

**Mae'r angen am wneud addasiadau i unrhyw ddarpariaeth, maen prawf neu arfer yn ymwneud â'r ffordd y mae'r ysgol yn gweithio yn ddyddiol.**

Mae hyn yn cynnwys ei phenderfyniadau a'i gweithredoedd, y ffordd mae'n gosod adnoddau allan, a'r arferion mae'n eu dilyn. Mae hyn yn wir pa un a yw'r ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer wedi eu hysgrifennu ai peidio.



# Nodweddion ffisegol

**Nid oes a wnelo'r elfen nodweddion ffisegol ag ysgolion mewn perthynas ag unigolion sy'n ddisgyblion anabl; yn lle hyn, mae gan ysgolion ddyletswydd i gynllunio gwell mynediad ar gyfer disgyblion anabl yn gyffredinol.**

Mae hyn mewn perthynas ag amgylchedd ffisegol yr ysgol hefyd. Er nad oes gofyn i ysgolion a lleoliadau eraill ddiwallu anghenion mynediad ffisegol disgybl unigol, bydd yn aml yn arfer da i wneud y newidiadau. Os bydd newidiadau'n cael eu nodi mewn Angen Dysgu Ychwanegol neu Gynllun Datblygu Unigol, mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i'w gwneud.




# Cymhorthion cynorthwyol a gwasanaethau

**Disgwylir i ysgolion ddarparu cymorth cynorthwyol neu wasanaeth i fyfyriwr ag anabledd pan fyddai'n rhesymol i wneud hynny ac os byddai cymorth o'r fath yn lliniaru unrhyw 'anfantais sylweddol' y mae'r myfyriwr yn ei wynebu o'i gymharu â myfyrwyr heb anabledd.**

Gellir diffinio 'sylweddol' fel unrhyw beth sy'n cael ei ystyried yn fwy na bychan neu ddinod. Mae ystyried a yw disgybl anabl dan anfantais sylweddol ai peidio yn dibynnu ar ei sefyllfa unigol. Mae methu â gwneud addasiadau rhesymol fel nad yw plant anabl yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol, hefyd yn fath o wahaniaethu.

**Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi enghreifftiau o gymhorthion cynorthwyol sy'n cynnwys:**

- Cymorth staff ychwanegol
- Gwasanaeth cymryd nodiadau â llaw neu'n electronig
- Larymau tân clyweledol
- Darllenwyr ar gyfer pobl ag amhariad ar y golwg
- Cymorth trwy arwain
- Bysellfwrdd wedi'i addasu
- Meddalwedd cyfrifiadur arbenigol

## Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu'r ystyriaethau canlynol ynghylch rhesymoldeb:

- Adnoddau'r ysgol a chaffaeladwyedd cymorth ariannol neu gymorth arall.
- Costau cyllidol o wneud yr addasiadau a chostau eraill.
- Pa mor effeithiol fyddai cymryd unrhyw gam arbennig mewn goresgyn yr anfantais sylweddol a ddioddefir gan ddisgybl anabl.
- Ymarferoldeb yr addasiad.
- Effaith yr anabledd ar yr unigolyn.
- Gofynion iechyd a diogelwch.
- Yr angen am gynnal safonau academaidd, cerddorol, ac mewn chwaraeon.
- Budd disgyblion eraill neu ddisgyblion sydd ar ddod.

### Mae'n bwysig hefyd rhoi'r dyletswyddau hyn yng nghyd-destun dyletswyddau ADY cyffredinol.

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dod o dan ADY a'r Ddeddf Cydraddoldeb, dylid ystyried addasiadau rhesymol a threfniadau mynediad fel rhan o gynllunio ac adolygu.

**Dylid nodi hefyd:**

- Nad yw'n bosibl i ysgol gyfiawnhau methu gwneud addasiadau rhesymol. Os yw'r addasiad yn rhesymol, mae'n rhaid ei ddarparu.
- Ni all ysgolion, na darparwyr gwasanaeth eraill, anfon y gost ymlaen at deuluoedd. Dylai newidiadau ddod o dan gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol. Os oes darpariaeth ar gael yn barod trwy fframwaith ADY, gall ysgolion ystyried hyn.
- Nid yw'r ffaith bod gan ddisgybl anabl Angen Dysgu Ychwanegol neu Gynllun Datblygu Unigol, yn cael gwared â dyletswydd yr ysgol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer y disgybl hwnnw.



# Dyletswydd ragflaenorol

**Mae dyletswydd yr ysgol i wneud addasiadau rhesymol yn ddyletswydd ragflaenorol ac felly mae ar ysgolion angen cynllunio o flaen llaw a bod wedi meddwl am y camau y gallant eu gosod i ddiwallu anghenion unrhyw ddisgybl sydd ag amhariad ar y golwg sy'n debygol o ymuno â'r ysgol.**

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys yr holl fanteision, y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae'r ysgolion yn eu darparu ar gyfer myfyrwyr, nid dim ond mynediad at y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys holl weithgareddau'r ysgol megis gweithgareddau allgyrsiol neu weithgareddau hamdden, profiad gwaith, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwaith cartref, gweithgareddau chwaraeon a theithiau'r ysgol.

Wrth ragweld a chynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol fel rhan o'u dyletswyddau rhagflaenorol "dylai ysgolion ...ond ystyried addasiadau rhesymol cyffredinol, e.e. bod yn barod i greu papurau ffontiau bras ar gyfer disgyblion ag amhariad ar y golwg, er nad oes disgyblion o'r fath wedi cael eu derbyn i'r ysgol ar hyn o bryd. Bydd golwg mwy eang a strategol o'r fath, o agwedd yr ysgol tuag at gynllunio ar gyfer disgyblion anabl, hefyd yn cysyulltu'n agos a'i dyletswyddau cynllunio" (Deddf Cydraddoldeb 2010, Rhan 4.22 – Adran Addysg).




# Cefnogaeth gymhwyso

**Dysgu symud neu fedrau symud, gan gynnwys ymwybyddiaeth ofodol, defnyddio ffon hir a medrau byw'n annibynnol yw cymhwyso..**

Darperir cefnogaeth arbenigol gan Arbenigwyr Cymhwyso cymwysedig, sy'n cefnogi plant a phobl ifainc sydd ag amhariad ar y golwg, gartref neu o fewn lleoliad addysg, o'r ysgol feithrin ac ymlaen trwy'r ysgol. Mae llawer yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae cymhwyso yn ei gael ar sicrhau bod plentyn neu berson ifanc sydd ag amhariad ar y golwg yn gallu cael mynediad at holl agweddau'r ysgol.

I'r graddau y mae ar y lleoliad addysg angen y medrau hyn, byddant yn cael eu cynnwys yn benodol o fewn dyletswydd yr ysgol i ddarparu addasiad rhesymol. Fel y cyfryw, byddai disgwyl i ysgolion roi argymhellion a rhaglenni gwaith a ddatblygwyd gan Arbenigwyr Cymhwyso mewn grym.



# Rhestr wirio addasiadau a chefnogaeth bosibl

**Gall dadansoddi'r gwahanol feysydd y mae ar ysgolion a lleoliadau angen eu hystyried fod o gymorth.**

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys canllawiau ynghylch rhai o'r addasiadau neu'r cymhorthion cynorthwyol nodweddiadol y dylid eu hystyried wrth feddwl am blant sydd ag amhariad ar y golwg.

Er bod yr awgrymiadau hyn yn rhoi rhai enghreifftiau o arferion gorau, nid ydynt yn gynhwysfawr.  Mae anghenion plant a phobl ifainc yn wahanol a dylai addasiadau gael eu gwneud yn ôl anghenion y myfyriwr ei hun, o fewn y cyd-destun penodol.

# Rhestr wirio: Addasiadau neu ystyriaethau posibl ar gyfer datblygu arferion gorau

## Y cwricwlwm

- Darparu deunyddiau ysgrifenedig, gan gynnwys gwaith cartref, mewn diwygiau hawdd eu defnyddio: print bras, clywedol, electronig neu 'braille'. Mae'n rhaid i'r rhain fod yn sensitif i anghenion y myfyriwr sydd ag amhariad ar y golwg ei hun.
- Darparu copïau unigol o gyflwyniadau rhyngweithiol ar y bwrdd gwyn mewn print bras neu mewn diwyg electronig hawdd ei ddefnyddio.
- Sicrhau safle eistedd priodol i fyfyrwyr a sicrhau bod golau priodol.
- Defnyddio strategaethau dysgu wedi'u haddasu i alluogi mynediad llwyr at gwricwlwm a galluogi dealltwriaeth (gan gynnwys Ymarfer Corff, Drama, pynciau Technoleg a Gwyddoniaeth).
- Defnyddio dulliau cyfathrebu priodol a hawdd eu defnyddio ar gyfer myfyrwyr, e.e.
  - Symbolau gweledol/cyffyrddol, llafar, iaith arwyddion, systemau arwyddo gan gynnwys yr wyddor ddwylo i'r dall fyddar, arwyddo ar gorff.
  - Gwrthrychau cyfeirio/symbolau cyffyrddadwy, symbolau cyffyrddol, clywedol/lleisiol.
  - Mynediad gweledol/cyffyrddol at fyrddau cyfathrebu deuol, gan gynnwys technoleg sy'n dibynnu ar gyfathrebu trwy wahanol fathau o switshis.
  - Cyfathrebu amgen a chynyddol (AAC).
  - Gair llafar, gweithio gydag ysgrifenyddion.
- Hwyluso datblygiad medrau graffigrwydd cyffyrddol er mwyn hyrwyddo a hwyluso mynediad at ddeunydd cynrychioliadol dau a thri dimensiwn, megis mapiau cyffyrddol, diagramau, lluniau, a deunyddiau ffigurol a graffigol eraill.
- Cefnogi eu gallu i ddewis dulliau penodol (neu gyfuniad o ddulliau) i gael mynediad at wybodaeth mewn cyd-destunau arbennig (e.e. medrau arholiadau, mewn gwersi ac astudiaethau annibynnol).
- Defnyddio meddalwedd arbenigol er mwyn hwyluso defnyddioldeb systemau TG yr ysgol.

## Asesiadau ac arholiadau

- Darparu papurau arholiad (gan gynnwys hen bapurau) mewn diwygiau hygyrch, megis print bras wedi'i addasu, 'braille' neu diwygiau electronig hygyrch (Mae a wnelo addasiadau ag arholiadau mewnol ac allanol a chyfleoedd ymarfer.).
- Dylai'r lleoliad bennu a hyfforddi ysgrifennydd cymwys, darllenydd a chynorthwy-ydd ymarferol, sy'n rhugl mewn 'braille' os yw'n briodol.
- Cymhwyso'r myfyriwr yn briodol ar gyfer asesiad, gan ystyried unrhyw angen am amser ychwanegol ac egwyl i gael seibiant, a chydag ystyriaeth i amhariad posibl sy'n codi wrth i bobl eraill adael yr ystafell arholiad o'i flaen. Efallai y bydd angen y defnydd o ofod addas i ffwrdd oddi wrth y brif ystafell arholiad.
- Sicrhau bod gan y myfyriwr fynediad at offer arbenigol priodol, a'i fod yn gyfarwydd â hwy.
- Sicrhau amgylchedd heb olau llachar ac wedi'i oleuo'n dda.

## Y cwricwlwm estynedig

- Ystyried system gyfeillio er mwyn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.
- Defnyddio arwydd gweledol wrth gychwyn ras neu gêm, e.e. baner liwgar neu sain.
- Trefnu ymweliadau theatr pan fydd perfformiad a ddisgrifir yn glywedol a/neu daith gyffwrdd.

## Cyfranogiad ehangach

- Cynnwys myfyrwyr sydd ag amhariad ar y golwg ar gyngor yr ysgol a/neu ofyn eu barn ar faterion sy'n cael eu trafod ar gyngor yr ysgol.
- Rhedeg clwb gweithgareddau cynhwysol amser cinio/ar ôl ysgol, e.e. chwaraeon cynhwysol, 'braille' i bawb.
- Gwneud yn siŵr bod clybiau ar ôl ysgol ar gael i bawb.
- Pan yw'n rhesymol i wneud hynny, trefnu cludiant i godi myfyrwyr ar ddiwedd clwb ysgol, er mwyn galluogi cyfranogiad.
- Gofyn am gyngor gan yr Athrawon Cymwysedig Plant a Phobl Ifainc ag Amhariad ar y Golwg wrth ymgymryd ag asesiadau peryglon priodol cyn teithiau. Gallai hyn gynnwys cynnig cyfleoedd cyn-dysgu i wella hygyrchedd.

## Trefnu'r ystafell ddosbarth

- Sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei gyfarch wrth ei enw er mwyn cael ei sylw.
- Lleihau ymyriadau gweledol a gwneud y gorau o'r amgylchedd gweledol
- Gosod sedd y myfyriwr yn y lle gorau mewn perthynas â'r athro, cefnogaeth oedolyn, a'r bwrdd gwyn, a sicrhau digon o olau.
- Cymryd lefel ei weledig a maes ei weledig i ystyriaeth.
- Gofyn i'r myfyriwr a yw yn y man gorau. Os oes arweiniad synhwyraidd wedi'i osod, gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddilyn.
- Mae'n ymarfer da i siarad ag asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol eraill a chydweithio â hwy ar gyfer strategaethau/arweiniad penodol a darpariaeth sy'n diwallu anghenion y myfyriwr.

## Cael gafael ar wybodaeth

- Gosod strategaethau fydd yn cael eu defnyddio mewn testunau, arholiadau neu asesiadau fel ffordd arferol o weithio.
- Rhoi ei gopi o adnoddau ei hun i'r myfyriwr.
- Gwneud newidiadau priodol i argraffu adnoddau a gwybodaeth.
- Gofyn i'r myfyriwr a oes cyngor arbenigol wedi'i drefnu, a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddilyn.
- Pan fydd gwybodaeth yn cael ei gyflwyno, sicrhau ei fod bob amser yn cael ei wneud mewn ffordd sydd er budd y defnyddiwr sydd ag amhariad ar y golwg, e.e. trwy ddarllen testun yn uchel a disgrifio diagramau.

## Yr amgylchedd ffisegol

- Defnyddio lliwiau cyferbyniol i amlygu fframiau drysau, pileri a stepiau. Bydd palmant cyffyrddol o fantais ar stepiau allanol, yn y top a'r gwaelod.
- Cynnwys canllawiau ar risiau sy'n ymestyn y tu hwnt i dop a gwaelod y grisiau.
- Sicrhau bod golau priodol yn yr holl fannau sydd ar gyfer myfyrwyr.
- Darparu lleoedd i gadw bagiau a chotiau er mwyn osgoi rhwystrau ar y llawr.
- Cael gwared â pheryglon a allai faglu rhywun, e.e. matiau llawr nad ydynt yn gywastad â lefel y llawr.
- Dangos ffyrdd arwyddo priodol, e.e. print bras neu 'braille', neu wrthrychau cyfeirio.
- Os yw'n ofynnol, darparu mynediad at leoedd tawel ar gyfer gwaith 1-1.

- Caniatáu lle ar gyfer cadw pethau, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sydd ag angen llawer iawn o adnoddau / offer.
- Darparu socedi trydan hawdd eu cyrraedd.

## Wrth weithio gyda'r Arbenigwr Cymhwyso, sicrhau mynediad diogel yn yr amgylchedd ffisegol

- Ystyried gyda'r Arbenigwr Cymhwyso a fydd y myfyriwr yn defnyddio cymhorthion symud, gan gynnwys o oedran cynnar, a sut i addasu ar gyfer y rhain. Buasai hyn yn cynnwys amrediad cyflawn o gymhorthion symud posibl, e.e. amrywiaeth o ffyn, ci tywys, taclau electronig (gan gynnwys apiau arbenigol ac offer), cadair olwyn clyfar gyda switsh. Gallai hefyd gynnwys tywysydd sy'n gweld.
- Efallai y bydd penderfyniadau Arbenigwr Cymhwyso sydd wedi'i benodi yn effeithio ar yr addasiadau y dylech chi eu gwneud. Dyma rai agweddau o gefnogaeth gymhwyso y gall fod arnoch chi eisiau eu deall:
  - A oes gan y myfyriwr ddull o ddysgu adeiledig tuag at fagu annibyniaeth, medrau hunandrefnu, a medrau bywyd swyddogaethol, wedi'i drefnu gan Arbenigwr Cymhwyso?
  - A oes gan y myfyriwr raglen tymor byr neu hirdymor, sy'n cael ei gyflawni gan yr Arbenigwr Cymhwyso?
  - A oes gan y myfyriwr Amhariad Ymenyddol ar y Golwg/anghenion cymhleth/yn methu cerdded (defnyddiwr cadair olwyn)/mae ganddo broblemau symud datblygiadol neu broblemau cydbwysedd a chydsymud sy'n effeithio ar symud annibynnol? A yw'r myfyriwr yn cael cefnogaeth gan Therapydd Galwedigaethol neu Physiotherapydd?

## Addysg Gymdeithasol a Iechyd Meddwl

- Fel gyda phob myfyriwr, mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i gefnogi eu Haddysg Gymdeithasol a Iechyd Meddwl. Mae hyn yn wir hefyd am fyfyrwyr sydd ag amhariad ar eu golwg

## Technoleg Cymhorthion Cynorthwyol

- Darparu dysgu arbenigol gan weithiwr proffesiynol cymwysedig, sydd â phrofiad mewn gweithio gyda myfyrwyr sydd ag amhariad ar eu golwg, ar gyfer cyffyrdd-deipio a defnyddio llwybrau llygad bysellfwrdd, gan eu cefnogi i gynhyrchu gwaith a chael gafael ar wybodaeth.
- Sicrhau mynediad effeithiol at Wi-Fi.

- Sicrhau bod technoleg addysg mewn lleoliad yn caniatáu i bob unigolyn ddefnyddio technoleg mewn ffordd sydd fwyaf effeithiol iddynt. Gall unrhyw newidiadau sydd wedi'u cynllunio gan leoliad fod yn rhwym wrth asesiad effaith cydraddoldeb.
- Hwyluso personoli amgylchoedd a defnyddio nodweddion hygyrchedd ar ddyfeisiadau prif ffrwd, e.e. mwyhau maint pwyntydd llygoden a galluogi offer cefnogi lleferydd.
- Darparu caledwedd prif ffrwd a/neu arbenigol sy'n gymwys at anghenion yr unigolyn, e.e. llyfrau darllen DAISY, cymerwyr nodiadau mewn braille a switshis.
- Darparu meddalwedd technoleg gynorthwyol sy'n gymwys ar gyfer anghenion yr unigolyn, e.e. ar gyfer rhannu sgrîn, chwyddiad lefel uchel a chyfansoddi cerddoriaeth.
- Galluogi'r defnydd o dechnoleg sy'n berthnasol i'r ysgol trwy weithio gyda'r unigolyn i gyflawni eu hanghenion mynediad, e.e. apiau ffonau symudol (gan gynnwys apiau arbenigol megis offer adnabod delweddau, apiau gwe-lywio, apiau cludiant, meddalwedd mewnbynnu lleferydd, yn ôl fel mae'n briodol).
- Sicrhau mynediad at e-ddysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio amgylchedd dysgu rhithwir y gall yr unigolyn gael mynediad ato'n effeithlon, neu trwy gyflwyno'r dysgu mewn diwyg arall mwy hygyrch.

I gael mwy o enghreifftiau o ymyriadau cyfeirer hefyd at 'Guide Dogs' Reasonable Adjustments Good Practice Case Studies', a'r 'Curriculum Framework for Children and Young People with Vision Impairment (CFVI)': **www.rnib.org.uk/cfvi**

# Eithriadau

## 1. Gwaharddiadau o weithgareddau penodol

Ni ddylai myfyrwyr gael eu gwahardd o unrhyw weithgareddau ysgol heb yn gyntaf ystyried a oes addasiad y gellid yn rhesymol ei wneud, neu ddarparu cefnogaeth ychwanegol i alluogi cyfranogiad, e.e. ar gyfer gweithgareddau neu deithiau.

## 2. Gwahardd o'r ysgol

Dylid dilyn y dyletswyddau sy'n sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried a'u gwneud mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â gwahardd myfyriwr ag amhariad ar y golwg o ysgol neu leoliad. Mae'r adroddiad 'Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion' gan Lywodraeth Cymru yn datgan nad yw "Deddf 2010 yn gwahardd ysgolion rhag gwahardd disgyblion sydd â nodweddion gwarchodedig ond mae'n gwahardd ysgolion rhag gwahardd dysgwyr oherwydd eu nodwedd warchodedig (e.e. gwahardd dysgwr anabl oherwydd ei anabledd neu oherwydd ei grŵp hiliol) na gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn ystod y broses gwahardd. Mae hyn yn wir am waharddiadau parhaol a chyfnod penodol. Gwahaniaethu uniongyrchol yw gwahardd dysgwr oherwydd y credir bod ganddo nodwedd warchodedig neu oherwydd bod ganddo gysylltiad â rhywun sydd â nodwedd warchodedig. Mae hefyd yn anghyfreithlon gwahardd dysgwr sydd â nodwedd warchodedig am ymddygiad na fuasai dysgwr heb nodwedd warchodedig yn cael ei wahardd amdano."

Gallai fod yn wahaniaethu anghyfreithlon i fyfyriwr gael ei wahardd am ymddygiad sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Bydd cael cyfiawnhad i waharddiad yn dibynnu pa un a yw'r ysgol wedi cwrdd â'i dyletswydd i roi addasiadau rhesymol mewn grym ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Os yw ymddygiad aflonyddol yn ganlyniad i'r ffaith bod addasiadau rhesymol heb gael eu gwneud ar gyfer plentyn ag anabledd, dylai'r ysgol enwi a mynd i'r afael ag achosion yr ymddygiad yn gyntaf, cyn symud at waharddiad.

# Adnoddau

**Nid yw'r cyfarwyddyd hwn wedi'i fwriadau fel canllaw terfynol i gyfraith yn y maes hwn. Cysylltwch â'r canllawiau isod i gael adroddiad llawn o'ch rhwymedigaethau cyfreithiol yn y maes hwn.**

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021: **www.gov.wales/equality-act-2010-disabled-school-pupils-wales-regulations-2021**
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018: **www.gov.wales/additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act**
- Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021: **www.gov.wales/additional-learning-needs-code**
- 'Planning to increase access to schools for disabled pupils – Welsh Government (2018)': **www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-04/planning-to-increase-access-to-schools-for-disabled-pupils.pdf**
- Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion – Llywodraeth Cymru (2019): **www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-11/exclusion-from-schools-pupil-referral-units.pdf**
- Beth mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: Canllaw i Ysgolion – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014): **www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/what_equality_law_means_for_you_as_an_education_provider_in_wales_schools.pdf**
- 'Curriculum Framework for Children and Young People with Vision Impairment (CFVI) (2023)' – RNIB: **www.rnib.org.uk/cfvi**
- 'Planning to increase access to schools for disabled pupils – Welsh Government (2018)': (2018): **www.gov.wales/increasing-access-disabled-pupils-planning-guidance**
- Canllaw i rieni ynghylch ymddygiad a gwaharddiad mewn ysgolion (2023): **www.gov.uk/government/publications/school-exclusions-guide-for-parents/a-guide-for-parents-on-school-behaviour-and-exclusion**
- 'Making childhood equal: The need to increase habilitation support for children and young people with vision impairment - Thomas Pocklington Trust and Guide Dogs (2020)': **www.pocklington.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Making-Childhood-Equal-Habilitation-Research-2020-compressed.pdf**
- 'Guide Dogs' Reasonable Adjustments Good Practice Case Studies, 2024'

**‘Guide Dogs’ yw darparwr elusennol mwyaf y DU ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifainc sydd ag amhariad ar y golwg.**

Rydym yn darparu amrediad o wasanaethau gan gynnwys gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, cynnyrch technoleg gynorthwyol a chefnogaeth, a llyfrau print bras trwy ein gwasanaeth ‘CustomEyes’.

Mae ‘Guide Dogs’ yn brif ddarparwr gwasanaethau cymhwyso yn y DU. Cymhwyso yw’r hyfforddiant a’r gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer plant a phobl ifainc dall a gwan eu golwg i fedru datblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i symud o gwmpas yn annibynnol.

Ochr yn ochr a’n gwasanaethau, rydym yn ymgyrchu i gael gwared â rhwystrau sy’n rhwystro pobl ddall a phobl gwan eu golwg rhag byw y bywyd maent yn ei ddewis.

To find out more about our campaigns, please visit:

**X: guidedogs.org.uk/campaigns**

**E-bost: @gdcampaigns**

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymgyrchoedd, ewch i:
**guidedogs.org.uk/campaigns**

‘Guide Dogs’ yw enw gweithio ‘The Guide Dogs for the Blind Association’. Swyddfa Gofrestredig: Hillfields, Burghfield Common, Reading, Berkshire RG7 3YG. Mae’n gwmni cyfyngedig drwy warant wedi’i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (291646) ac yn elusen wedi’i chosfrestru yng Nghymru a Lloegr (209617), Yr Alban (SCO38979) ac Ynys Manaw (1334). C101 02/24

Mae NatSIP – y ‘National Sensory Impairment Partnership’ (**www.natsip.org.uk**) yn bartneriaeth cenedlaethol o bobl broffesiynol unigryw a’r prif sefydliad gwirfoddol a phroffesiynol sy’n gweithio ar draws y sector amhariad ar y synhwyrau i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifainc sydd ag amhariad ar y synhwyrau a’u teuluoedd.

I gysylltu â NatSIP e-bostiwch:
**send-reforms@natsip.org.uk**